**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 24 Mehefin 2014

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Cyng. Bobby Feeley

**Awdur yr Adroddiad:** Gabrielle Heeney, Rheolwr Prosiect, Diogelu

**Teitl:** Trefniadau Rhanbarthol a Lleol i Ddiogelu Plant ac Oedolion

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 I roi gwybod i aelodau am ddatblygiadau rhanbarthol mewn perthynas â Diogelu Plant.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Gofyn i aelodau gytuno ar y strwythur bwriedig ar gyfer BDP rhanbarthol, i'w adnabod fel Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 I gytuno ar strwythur y BDP rhanbarthol, i'w adnabod fel Bwrdd Diogelu Plant Lleol Gogledd Cymru, fel y dangosir yn Niagram 2 yn yr adroddiad sydd ynghlwm ; i fod yn weithredol cyn gynted â phosibl.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

4.1 Mae Byrddau Diogelu Plant Lleol yn bartneriaethau statudol. Amcan Byrddau Diogelu Plant Lleol, i gydlynu a sicrhau effeithlonrwydd gweithgarwch diogelu partneriaid, gafodd ei sefydlu yn Neddf Plant 2004 a chadarnheir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Mae rheoliadau'n ymhelaethu ymhellach ar swyddogaethau BDPLl, ac yn manylu ynghylch aelodaeth y bwrdd.

4.2 Mae tri Bwrdd Diogelu Plant isranbarthol wedi bod ar waith am beth amser ar draws Gogledd Cymru: BDPLl Gwynedd a Môn, BDPLl Conwy a Sir Ddinbych, a BDPLl Sir y Fflint a Wrecsam. Yn ogystal, mae Grŵp Polisïau a Gweithdrefnau rhanbarthol wedi bod yn cynhyrchu polisïau Gogledd Cymru am dros ddeng mlynedd. Yn dilyn cyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru yn yr hydref 2011, mae'r tri BDPLl isranbarthol wedi cymryd camau i hyrwyddo mwy o integreiddio a chydweithio, a symud tuag at strwythur rhanbarthol, cyn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

4.3 Bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles angen i asiantaethau sefydlu byrddau diogelu rhanbarthol. Diffinnir y rhanbarthau yn unol ag ôl-

troed y Bwrdd Iechyd Lleol: Gogledd Cymru yw'r rhanbarth a ddiffiniwyd ar gyfer ein hardal ni.

4.4 Mae system ddwy-haen Byrddau Diogelu wedi bod ar waith ar draws Gogledd Cymru ers dechrau 2013. Cafodd Bwrdd Rhanbarthol ei sefydlu, ond mae'r swyddogaethau statudol yn parhau gyda'r tri BDPLl isranbarthol. Mae'r system ddwy-haen wedi cael llwyddiannau, ond bu tensiynau hefyd.

4.5 Mae’r dull rhanbarthol wedi’i fabwysiadu gan y rhan fwyaf o’r rhanbarthau eraill ar draws Cymru, er bod rhai wedi symud i fyrddau rhanbarthol yn eu cyfanrwydd ac wedi peidio â chynnull byrddau lleol. Mae’r model dwy haen a’r model rhanbarthol llawn wedi eu gwerthuso gan Brifysgol Sheffield ac mae adroddiad manwl ar gael ar gais.

4.6 Mewn ymateb i'r gwersi a ddysgwyd o weithrediad y system ddwy-haen, bellach cynigir bod strwythur yn cael ei roi yn ei le sy'n cynnal presenoldeb lleol cryf tra hefyd yn datrys y tensiynau rhwng y byrddau rhanbarthol a lleol. Y bwriad yw y bydd swyddogaethau statudol yn aros gyda Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC), a bod grwpiau isranbarthol yn sicrhau bod arferion lleol yn bodloni angen lleol.

4.7 Mae'r adroddiad sydd ynghlwm fel Atodiad 1 yn ymhelaethu ar y crynodeb hwn.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae Diogelu Plant yn flaenoriaeth fawr i bawb. Mae Bwrdd Diogelu Plant Lleol effeithiol yn cyfrannu at yr amcan hwn drwy sicrhau bod asiantaethau’n gweithio gyda’i gilydd i gadw plant yn ddiogel rhag cam-drin ac amddifadedd. Mae’r maes hwn o waith yn cyfrannu at ganlyniad 7 Cynllun Mawr Sir Ddinbych: cadw pobl yn ddiogel.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r Bwrdd Diogelu Plant yn bartneriaeth statudol, ac yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan ei bartneriaid. Bydd hyn yn parhau i fod yn wir gyda'r bwrdd rhanbarthol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed EqIA wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

7.1 Bydd unrhyw newidiadau i wasanaethau sy’n deillio o ganlyniad i weithgarwch neu benderfyniadau’r Bwrdd Diogelu Plant yn cael eu gweithredu gan asiantaethau cyfansoddol, lle bydd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gyflawni.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Cyflwynwyd yr adroddiad amgaeedig yn atodiad 1 i Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar 25 Ebrill. Mae'r bwrdd yn gefnogol i'r dull gweithredu.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae Byrddau Diogelu Plant yn bartneriaethau statudol, yn cael eu hariannu gan gyfraniadau gan bartneriaid statudol. Bydd yn rhaid ystyried goblygiadau costau camau gweithredu sy'n deillio o'r cynllun busnes ar wahân.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Yn amlwg mae'r risg ein bod yn methu â diogelu plant o'r pwys mwyaf ac wedi'i nodi yn y gofrestr risg gorfforaethol a'r gofrestr risg gwasanaeth. Mae'n hanfodol ein bod yn ceisio atebion sy'n sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau diogelu mwyaf diogel ac addas i blant a theuluoedd yr awdurdod. Mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod cryfder y rhaglen ranbarthol, yn enwedig wrth weithio ochr yn ochr â'n partneriaid rhanbarthol fel yr Heddlu ac Iechyd sydd hefyd â chyfrifoldebau eglur i amddiffyn a diogelu plant.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae Adran 134 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn mynnu bod Bwrdd Diogelu Plant yn cael ei sefydlu ar gyfer ardal y Bwrdd Diogelu. Mae Rheoliadau sy'n nodi'r ardal a'r partner arweiniol i ddilyn.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Prosiect, Diogelu
Ffôn: 07768 043315